Mae wedi cael ei gymharu â Bruce Springsteen, John Mayer, Bruce Cockburn a Dave Matthews. Mae Martyn Joseph wedi creu ei arddull a'i enw da ei hun fel perfformiwr byw cyfareddol ac mae'n sefyll yn ei rinwedd ei hun, wedi'i adeiladu ar enw da am roi'r hyn y mae miloedd o bobl wedi'i ddisgrifio fel profiad cerddoriaeth fyw gorau eu bywydau. Dechreuodd 2024 gyda rhyddhau albwm stiwdio newydd "meistrolgar sy'n diffinio gyrfa" (Fatea UK), *This Is What I Want To Say*, ynghyd â thraith o'r DU y gwerthwyd pob tocyn ar ei chyfer, ac yna sioeau yn Ewrop a Gogledd America.

Compared to Bruce Springsteen, John Mayer, Bruce Cockburn and Dave Matthews, Martyn Joseph has created his own style and reputation as a mesmerising live performer and stands in his own right, built on a reputation for giving what thousands have described as the best live music experience of their lives. 2024 kicked off with the release of a new "masterful and career defining" (Fatea UK) studio album, *This Is What I Want To Say*, along with a sell out UK tour, followed by shows in mainland Europe and North America.



YSGOL GYMUNEDOL PENPARC: SIOE NADOLIG

Dydd Iau 5 Rhagfyr | Thursday 5 December 1.30pm & 6.30pm
£5

Rydym wrth ein bodd i groesawu disgyblion Ysgol Gymunedol Penparc gyda'u sioe nadolig o gerddoriaeth, caneuon ac eitemau amrywiol am y tro cyntaf ar y prif lwyfan yma yn y Mwldan. Dewch i fwynhau gyda hwy ar gyfer y digwyddiad arbennig hwn.

We're delighted to welcome the children of Ysgol Gymunedol Penparc with their new christmas show of music and song for the first time on the main stage at Mwldan. Come and join them for this special event.



ALFIE MOORE: A FACE FOR RADIO

Nos Wener 6 Rhagfyr | Friday 6 December 7.30pm
£20

Mae deng mlynedd ar hugain o waith sifft, yng ngwaith dur Sheffield i ddechrau ac yna fel plismon ar y bît (lle cafodd ei bwnio yn ei wyneb gryn dipyn), wedi gadael Alfie Moore gyda 'wyneb ar gyfer y radio'. Nid wyneb 'cartrefol' mohono, ond yn hytrach wyneb sydd wedi gweld diffyg cynnal a chadw ar hyd y blynnyddoedd.

Yn ei 40au, fe drodd newid annisgwyl mewn gyrfa yr Alfie canol oed o fod yn blismon stryd i fod yn seren radio'r BBC. Ond pan ddaeth enwogrwydd teledu i'w ran, a allai fynd i'r afael ag ef, neu a oedd wedi mynd yn rhy hen?

Thirty years of shift-work, initially in the Sheffield steelworks and then as a copper on the beat (where he was punched in the face quite a lot), has left Alfie Moore with 'a face for radio'. A face not so much 'lived in' as inhabited by a settlement of squatters with little regard to property maintenance and repair.

In his 40s a surprising career shift turned middle-aged Alfie from street cop to BBC radio star. But when TV fame beckoned could he grasp it or was he past it?

CARDIGAN THEATRE: CINDERELLA

Dydd Sadwrn 21 Rhagfyr | Saturday 21 December 2.00pm
Dydd Sul 22 Rhagfyr | Sunday 22 December 2.00pm
Dydd Llun 23 Rhagfyr | Monday 23 December 2.00pm
Dydd Mawrth 24 Rhagfyr | Tuesday 24 December 2.00pm
Dydd Gwener 27 Rhagfyr | Friday 27 December 2.00pm

£10

Ymunwch â Theatr Aberteifi ar gyfer y Pantomeim gorau oll, Cinderella!

Mae Cinderella'n dymuno gadael ei bywyd diflas fel morwyn i'w llysfam greulon a'i chworiydd hyll, ond pan mae'r tywysog yn cyhoeddi ei fod yn mynd i gynnal dawns frenhinol er mwyn dod o hyd i wraig, efallai y caiff hi ei dymuniad wedi'r cyfan! Gydag ychydig o help gan ei Dewines Garedig a'i ffrind gorau Buttons, a allai hi wireddu ei breuddwydion a byw'n hapus byth wedyn? Cewch hwy! a sbri yn y pantomeim mwyaf hudolus oll, yn cynnwys caneuon hen a newydd, dawnsio disglair, jôcs ofnadwy, slapstic doniol a llawer o gyfranogiad gan y gynulleidfa. Gyda thalent leol o Aberteifi a thu hwnt, fe gewch chi fynd i'r ddawns eleni gyda'r pantomeim teuluol ysblennydd hwn! Mae'r cloc yn tician, felly archebwch eich tocynnau yn gyflym!

Join Cardigan Theatre for the Fairy Godmother of all Pantomimes, Cinderella!

Cinderella wishes she could leave her dull life as a servant to her evil stepmother and ugly sisters, but when the prince announces he's going to hold a royal ball to find himself a wife, she may get her wish after all! With a little help from her Fairy Godmother and best friend Buttons, could she have her dreams come true and live happily ever after? You'll have a 'ball' at the most magical pantomime of them all, featuring songs new and old, dazzling dance routines, awful jokes, bundles of audience participation and hilarious slapstick. Featuring local talent from across Cardigan and beyond. You shall go to the ball this year with this spectacular family pantomime! The clock is ticking, so book your tickets fast!

Dydd Sadwrn 28 Rhagfyr | Saturday 28 December 2.00pm
Nos Sadwrn 28 Rhagfyr | Saturday 28 December 7.00pm
Dydd Sul 29 Rhagfyr | Sunday 29 December 2.00pm
Dydd Llun 30 Rhagfyr | Monday 30 December 2.00pm



ELIZA CARTHY & JENN REID

Nos Sadwrn 8 Chwefror | Saturday 8 February

7.30pm

£20 (£18)

Os oes un cerddor yn ymgorffori dynameg a bywiogrwydd yr adfywiad gwerin Seisnig presennol, yna Eliza Carthy MBE yw honno. A hithau wedi'i henwebu ddwywaith ar gyfer Gwobr Mercury, ac wedi ennill gwobrau di-rif eraill dros ei gyrfa ddeng mlynedd ar hugain, mae Eliza wedi perfformio a recordio ledled y byd gydag amrywiaeth eang o artistiaid gan gynnwys, Paul Weller a Jarvis Cocker. Yn ymuno ag Eliza bydd Jennifer Reid, artist sy'n perfformio caneuon gwaith tafodieithol Swydd Gaerhirfryn yr 19eg Ganrif, baledi printiedig Manceinion a stepiau clocio. Mae hi'n gweithio ar draws y byd academaidd, maes perfformio gwerin, ymgynghori treftadaeth a'r cyfryngau i ddod â hanes diwydiannol yn ôl i'r bobl.

If there is one musician who embodies the dynamism and vitality of the current English folk revival, it's Eliza Carthy MBE. Twice nominated for the Mercury Prize, and winner of innumerable other accolades over her thirty-year career, Eliza has performed and recorded around the world with a diverse array of artists including Paul Weller and Jarvis Cocker. Joining Eliza will be Jennifer Reid, an artist who performs 19thC Lancashire dialect work songs, Manchester broadside ballads and clog steps. She works across academia, folk performance, heritage consultation and media to bring industrial history back to the people.



THE IRISH HOUSE PARTY

Nos Sadwrn 15 Chwefror | Saturday 15 February

7.30pm

£20

O'r diwedd, sioe gerddoriaeth Wyddelig sydd wedi deillio o lwerddon heb yr ystrydebau sydd gan amlaf yn dilyn!

Mae'r gerddoriaeth fyw, y dawnsio Gwyddelig a'r tynnu coes yn heintus ac yn treiddio i'r ysbryd mewn eiliadau. Gan gynnwys cerddorion a dawnsywyr sy'n bencampwyr lwerddon Gyfan, mae'r Irish House Party yn cyfuno asiad unigryw o rymgweithio â'r gynulleidfa gyda straeon hynod ddi-ddorol am y gerddoriaeth a'r offerynnau eu hunain, noson allan wych!

At last, an Irish music show that has come out of Ireland without the clichés that usually follow!

The live music, Irish dancing and banter is infectious and enters the psyche in seconds. Featuring All Ireland champion musicians and dancers, The Irish House Party combines a unique blend of light-hearted audience interaction with fascinating stories about the music and the instruments themselves, a fabulous night out!

THE GRUFFALO

Dydd Sadwrn 1 Mawrth | Saturday 1 March

1.30pm & 4.00pm

Dydd Sul 2 Mawrth | Sunday 2 March

11.30am & 2.30pm

£15 (£12)

Ymunwch â'r Llygodyn ar antur feiddgar drwy'r goedwig dywyll yn addasiad cerddorol, hudol Tall Stories o'r llyfr lluniau clasurol gan Julia Donaldson ac Axel Scheffler – sy'n dathlu 25 mlynedd yn 2014!

Canu, chwervthin a sbort diddiwedd i blant 3 oed ac yn hŷn a'u teulu, yn y sioe hoffus iawn hon sydd wedi teithio ledled Prydain a'r byd!

The Gruffalo © Julia Donaldson ac Axel Scheffler 1999 – Llyfrau Plant Macmillan

Join Mouse on a daring adventure through the deep, dark wood in Tall Stories' magical, musical adaptation of the classic picture book by Julia Donaldson and Axel Scheffler - celebrating 25 years in 2024!

Songs, laughs and monstrous fun for children aged 3 and up and their grown-ups, in the much-loved show that's toured Britain and the world! --

The Gruffalo © Julia Donaldson and Axel Scheffler 1999 – Macmillan Children's Books



DIGWYDDIADAU DARLLEDU
BROADCAST EVENTS



ANDRÉ RIEU 2024 MAASTRICHT CONCERT: THE POWER OF LOVE

Nos Sadwrn 31 Awst | Saturday 31 August 7.00pm
 Dydd Sul 1 Medi | Sunday 1 September 2.00pm
 Dydd Sul 8 Medi | Sunday 8 September 2.00pm
 £18 (£17)

Mae André Rieu yn barod i'ch syfrdanu gyda'i gyngerdd sinema newydd sbon Power of Love. O'i dref enedigol hardd, Maastricht, mae The King of the Waltz yn cyflwyno sioe ysblynydd ar gyfer y sgrin fawr sy'n rhaid ei gweld. Gyda'i Gerddorfa Johann Strauss fyd-enwog a chast o gannoedd, ymddengys mai hwn fydd digwyddiad cerddorol yr haf gan un o artistiaid mwyaf toreithiog y byd.

André Rieu is ready to blow you away with his brand new cinema concert Power of Love. From his picturesque hometown of Maastricht The King of the Waltz presents a must-see big screen spectacular. Accompanied by his world famous Johann Strauss Orchestra and a cast of hundreds this promises to be the music event of the summer by one of the world's most prolific artists.



PRESENT LAUGHTER (PG)

Nos Iau 5 Medi | Thursday 5 September 7.00pm
 Dydd Sadwrn 7 Medi | Saturday 7 September 2.00pm
 Nos Iau 19 Medi | Thursday 19 September 7.00pm
 Dydd Sadwrn 21 Medi | Saturday 21 September 2.00pm
 £15 (£14)

Mae'r cynhyrchiad gwobrwyedig o gomedi bryfoclyd Noël Coward sy'n cynnwys Andrew Scott (*Vanya, Fleabag*) yn dychwelyd i'r sgrin fawr.

Wrth iddo baratoi i fynd ar daith dramor, mae 'na berygl bod yr actor Garry Essendine yn mynd i golli rheolaeth ar ei fywyd lliwgar.

The multi award-winning production of Noël Coward's provocative comedy featuring Andrew Scott (*Vanya, Fleabag*) returns to the big screen.

As he prepares to embark on an overseas tour, star actor Garry Essendine's colourful life is in danger of spiralling out of control.




THE MARRIAGE OF FIGARO

Nos Fawrth 10 Medi | Tuesday 10 September 6.30pm
Dydd Sul 15 Medi | Sunday 15 September 2.00pm
£18 (£17)

Mae Figaro'n priodi, ac fe'ch gwahoddir i ymuno â theulu Almaviva am ddiwrnod gwyllt o ddatguddiadau a sgandal. Mae opera gomig Mozart yn llawn troeon plot, chwantau gwaharddedig ac alawon bythgofiadwy, gan gyfuno comedi hynod ddifyr gydag eiliadau o harddwch syfrdanol.

It's Figaro's wedding, and you're invited to join the Almaviva household for an uproarious day of revelation and scandal. Mozart's comic opera is packed with plot twists, forbidden desires and unforgettable melodies, combining laugh-out-loud comedy with moments of breathtaking beauty.



PRIMA FACIE (15)

Nos Iau 12 Medi | Thursday 12 September 7.00pm
Nos Fercher 18 Medi | Wednesday 18 September 7.00pm
Nos Iau 26 Medi | Thursday 26 September 7.00pm
Dydd Iau 17 Hydref | Thursday 17 October 2.00pm
£15 (£14)

Cafodd *Prima Facie* ei rhyddhau'n wreiddiol yn 2022 gan dorri tir newydd yn y swyddfa docynnau i ddod yr NT Live mwyaf poblogaidd erioed. Rydym wrth ein bodd i allu rhannu perfformiad gwobrwyedig Jodie Comer gyda chynulleidfaoedd eto.

***Prima Facie* was originally released in 2022 and broke multiple box office records to become the most watched NT Live of all time. We're thrilled to be able to share Jodie Comer's multi award-winning performance with audiences again.**



RIVERDANCE 25TH ANNIVERSARY

Dydd Sul 22 Medi | Sunday 22 September 2.00pm
 Nos Fawrth 25 Medi | Tuesday 24 September 7.00pm
 Dydd Sul 29 Medi | Sunday 29 September 2.00pm
 £16 (£15)

A hithau wedi tarddu fel perfformiad yn ystod yr egwyl yng Nghystadlueth Cân Eurovision, mae'r *Riverdance* wedi datblygu i fod yn ffenomenon fyd-eang. Mae'r cynhyrchiad hwn i ddathlu 25 mlynedd yn ailwampiad grymus ac egniol o'r sioe, sy'n cael ei chlodfori ar draws y byd am ei cherddoriaeth sydd wedi ennill gwobrau Grammy ac am egni ac angerdd ei ddawnsuwr Gwyddelig a rhyngwladol.

Having originated as an interval performance during the 1994 Eurovision Song Contest, *Riverdance* has gone on to become a worldwide phenomenon. This 25th Anniversary production is a powerful and stirring reinvention of the show, celebrated the world over for its Grammy Award-winning music and the thrilling energy and passion of its Irish and international dance.



MATTHEW BOURNE'S EDWARD SCISSORHANDS

Nos Fercher 25 Medi | Wednesday 25 September 7.00pm
 Dydd Sadwrn 28 Medi | Saturday 28 September 2.00pm
 Nos Iau 17 Hydref | Thursday 17 October 7.00pm
 £18 (£17)

Bu lle i gynhyrchiad dawns hudol Matthew Bourne o *Edward Scissorhands* yng nghalonau cynulleidfaoedd ledled y byd ers ei berfformiad cyntaf yn 2005. Yn seiliedig ar ffilm glasurol Tim Burton ac yn cynnwys cerddoriaeth hynod hardd Danny Elfman a Terry Davies, mae Bourne a'i Gwmni New Adventures yn dychwelyd at y stori ffraeth, chwerwfelys hon am fachgen anghyflawn, wedi'i adael ar ei ben ei hun mewn byd newydd rhyfedd

Matthew Bourne's magical dance production of *Edward Scissorhands* has carved a place in the hearts of audiences worldwide since its premiere in 2005. Based on the classic Tim Burton movie and featuring the hauntingly beautiful music of Danny Elfman and Terry Davies, Bourne and his New Adventures Company return to this witty, bittersweet story of an incomplete boy left alone in a strange new world.



ALICE'S ADVENTURES IN WONDERLAND

Nos Fawrth 15 Hydref | Tuesday 15 October 7.15pm
 Dydd Sul 20 Hydref | Sunday 20 October 2.00pm
 £18 (£17)

Dewch i lawr y twll cwningen yn yr addasiad bale hwn o stori deuluol enwog Lewis Carroll. Ewch ar daith trwy Wonderland gydag Alice a chewch ddod ar draws llu o gymeriadau chwilfrydig yn nehongliad theatraidd unigryw Christopher Wheeldon.

Tumble down the rabbit hole in this ballet adaptation of Lewis Carroll's famous family story. Journey through Wonderland with Alice and encounter a host of curious characters in Christopher Wheeldon's unique theatrical interpretation.



VAN GOGH: POETS & LOVERS

Nos Fercher 6 Tachwedd | Wednesday 6 November 7.00pm
 Dydd Sadwrn 9 Tachwedd | Saturday 9 November 2.00pm
 Nos Fawrth 19 Tachwedd | Tuesday 19 November 7.00pm
 Dydd Sul 24 Tachwedd | Sunday 24 November 2.00pm
 £12 (£11)

Peidiwch â cholli'r arddangosfa unwaith mewn canrif hon o baentiadau ysbennydd Van Gogh o Oriol Genedlaethol, Llundain. Gan ganolbwyntio ar ei broses creadigol unigryw, mae *Van Gogh: Poets & Lovers* yn archwilio blynyddoedd yr artist yn ne Ffrainc, lle drawsnewidiodd ei arddull. Bellach roedd Van Gogh ar dân dros adrodd straeon yn ei gelf, gan droi'r byd o'i gwmpas yn ofodau bywiog, delfrydol ac yn gymeriadau symbolaidd.

Don't miss this once-in-a-century exhibition of Van Gogh's spectacular paintings. The National Gallery, London, hosts the UK's biggest-ever exhibition of one of the most beloved, and perhaps the most misunderstood, artists of all time. Focusing on his unique creative process, *Van Gogh: Poets & Lovers* explores the artist's years in the south of France, where he revolutionised his style. Van Gogh became consumed with a passion for storytelling in his art, turning the world around him into vibrant, idealised spaces and symbolic characters.



ANDRÉ RIEU CHRISTMAS 2024: GOLD AND SILVER

Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr Saturday 7 December	2.00pm
Dydd Sul 8 Rhagfyr Sunday 8 December	2.00pm
Dydd Sadwrn 14 Rhagfyr Saturday 14 December	2.00pm
Dydd Fawrth 31 Rhagfyr Tuesday 31 December	2.00pm
£18 (£17)	

Fel llygedyn o ddisgleirdeb, bydd Cyngerdd Nadolig 2024 André Rieu yn dychwelyd i sinemâu!

Bydd tocynnau ar gyfer y digwyddiad arbennig iawn hwn ar gael i'w harchebu o'r 30ain o Awst.

A ray of glimmer and shine, André Rieu's 2024 Christmas Concert will be returning to cinemas!

Tickets for this very special event will be available to book from the 30th August.



CINDERELLA

Nos Fawrth 10 Rhagfyr Tuesday 10 December	7.15pm
Dydd Sul 15 Rhagfyr Sunday 15 December	2.00pm
£18 (£17)	

Y Nadolig hwn, cewch eich cludo i fyd etheraidd lle mae ychydig o lwch tylwyth teg yn gwireddu breuddwydion. Mae'r bale hudolus hwn gan Goreograffydd Sefydol y Royal Ballet, Frederick Ashton, yn brofiad theatraidd i'r teulu cyfan.

This Christmas, be transported into an ethereal world where a sprinkling of fairy dust makes dreams come true. This enchanting ballet by The Royal Ballet's Founding Choreographer Frederick Ashton is a theatrical experience for all the family.



THE NUTCRACKER

Nos Fawrth 17 Rhagfyr | Tuesday 17 December 7.00pm
Nos Sadwrn 21 Rhagfyr | Saturday 21 December 6.00pm
Nos Lun 23 Rhagfyr | Monday 23 December 6.00pm
Dydd Fercher 1 Ionawr | Wednesday 1 January 2.00pm
£18 (£17)

Dewch i ddarganfod swyn y bale gyda'r wledd Nadoligaidd ddisglair hon i'r teulu cyfan. Mae dyluniadau cyfnod Julia Trevelyan Oman yn dod â swyn yr Wyl i'r cynhyrchiad hoffus hwn y Royal Ballet gan Peter Wright, wrth i hud y stori dylwyth teg ddod ynghyd â dawnsio ysblennydd yn y bale clasurol bythgofiadwy hwn.

Discover the enchantment of ballet with this sparkling festive treat for the whole family. Julia Trevelyan Oman's period designs bring festive charm to Peter Wright's beloved Royal Ballet production, as fairytale magic comes together with spectacular dancing in this unforgettable classic ballet.



WOLF WITCH GIANT FAIRY

Dydd Gwener 3 Ionawr | Friday 3 January 2.00pm
Dydd Sadwrn 4 Ionawr | Saturday 4 January 2.00pm
Dydd Sul 5 Ionawr | Sunday 5 January 2.00pm
£10 (£7 o dan 18 / under 18s)

Yn dilyn rhediad a enillodd Wobr Olivier yn 2021 (Sioe Deuluol Orau), daw'r opera werin hon 'a lwyfannir gyda chyfaredd' (The Stage) i sinemâu am y tro cyntaf. Red Riding Hood sy'n gyfrifol am ddosbarthu bara i'w Mam-gu, ym mherfedd y goedwig chwedlonol. Ond ar y ffordd, mae Red yn cwrdd â Blaidd cyfrwys sy'n ei thwylllo i ddilyn llwybr gwahanol. Ar hyd y ffordd, mae Red yn dod ar draws criw o gymeriadau lliwgar, gan gynnwys gwrach frawychus, cath sy'n siarad a Phedler perswadiol iawn.

Following the Olivier Award-winning run in 2021 (Best Family Show), this 'enchantingly staged' folk opera (The Stage) comes to cinemas for the first time. Red Riding Hood is tasked with delivering bread to her Grandmother, deep in the heart of the fairy-tale forest. But en route, Red meets a cunning Wolf who tricks her into taking a different path. Along the way, Red stumbles into a colourful cast of characters, including a scary witch, a talking cat and a rather persuasive Peddler.

SINEMA CINEMA

PRISIAU'R SINEMA YW: CINEMA PRICES ARE:

£8.40 ar gyfer Oedolion | Adults

£7.70 Pobl Hŷn 60+ / Senior 60+
Myfyriwr Llawn Amser 15+ / Full Time Student 15+
Pobl Anabl / Disabled
Ceiswyr Gwaith / Cymhorthdal Incwm /
Job Seekers / Income Support

£5.90 ar gyfer plant oed 14 ac yn iau | Children aged 14 and under
Aelodau CFFThM Llawn & Ticketsavers / TMFS Full Members
& Ticketsavers

ST ISDEITLAU | SUBTITLES

R DDANGOSIAD HAMDDENOL | RELAXED SCREENING

Bydd ffilmiau'n DECHRAU
ar yr amser a hysbysebir
Films **START** at the
advertised time

Sylwer - Gall amserlenni sinema newid ar
fyr rybudd. Argymhellwn eich bod yn archebu
eich tocynnau ymlaen llaw pryd bynnag bo'n
bosibl - yna gallwn gysylltu â chi os bydd
unrhyw amgylchiadau annisgwyl yn codi.
Mae'r amserlen fwyaf diweddar bob amser
i'w gweld ar ein gwefan, felly gwiriwch cyn
teithio os nad ydych wedi archebu eich tocyn
ymlaen llaw.

**Note - Cinema schedules can be subject
to change at short notice. We recommend
pre-booking your tickets wherever possible;
we can then contact you in the event of any
changes. The most up-to-date schedule can
always be found on our website, so please
check before travelling if you haven't pre-
booked your ticket.**

CYFLE ARALL I WELD... ANOTHER CHANCE TO SEE...

DESPICABLE ME 4 (U)

AWST | AUGUST 16 – 22 @ 12.15, 23 – 29 @ 2.15, 30, 31 @ 2.00, 4.45
MEDI | SEPTEMBER 1 @ 4.45, 2, 3 @ 2.00, 4.45, 7, 8 @ 1.45, 14 @ 5.30,
15 @ 2.30, 21 @ 6.00, 22 @ 1.30, 28 @ 4.30, 29 @ 5.00
HYDREF | OCTOBER 5, 6 @ 1.30, 12 @ 2.15, 26 @ 2.30, 27 @ 1.45,
28 @ 2.00, 29 @ 2.00 **R**, 30, 31 @ 2.00

TRAP (15 TBC)

AWST | AUGUST 16 – 22 @ 12.45, 3.45, 7.45

HAROLD AND THE PURPLE CRAYON (PG TBC)

AWST | AUGUST 16 – 22 @ 5.15, 23 – 29 @ 5.00, 30, 31 @ 2.30
MEDI | SEPTEMBER 1 – 3 @ 2.30

INSIDE OUT 2 (U)

AWST | AUGUST 16 – 22 @ 6.45, 23 – 29 @ 4.45, 30, 31 @ 4.30
MEDI | SEPTEMBER 1 @ 5.45, 2, 3 @ 4.30, 7 @ 5.15, 8 @ 5.15 **R**,
14, 15 @ 5.15, 21 @ 4.30, 22 @ 5.00
HYDREF | OCTOBER 26, 27 @ 2.15

DEADPOOL & WOLVERINE (15)

AWST | AUGUST 23 – 29 @ 7.15

TWISTERS (12A)

AWST | AUGUST 30, 31 @ 7.15
MEDI | SEPTEMBER 1 – 5 @ 7.15

FLY ME TO THE MOON (12A)

MEDI | SEPTEMBER 6 @ 7.00, 7 @ 6.45, 11 @ 7.00

Yn dod cyn hir.... Mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd modd archebu 'Te Prynawn' o fis Medi ymlaen, digwyddiad pythefnosol i gyd-fynd â'n dangosiadau prynawn dydd lau. Mwy o wybodaeth i ddilyn!

Coming soon.. We are excited to announce 'Afternoon Tea' will be bookable from September, a fortnightly event to coincide with our Thursday Matinees. More information to follow!

PECYN PARTI PLANT

£8.50 y plentyn (o leiaf 10 plentyn)
Yn cynnwys tocyn sinema, popgorn bach + carton o ddioid yr un. Hefyd, defnydd o fan cyfarfod, gydag addurniadau, ar gyfer cacen cyn/ar ôl y ffilm.

KIDS PARTY PACKAGE

£8.50 per child (minimum of 10 children). Includes cinema ticket, small popcorn + carton of drink each. Also use of a meeting space, with decorations, for a cake before/ after the film.

Cysylltwch a'r Swyddfa Docynnau / Contact the Box Office:
boxoffice@mwldan.co.uk / 01239 621 200



AWST | AUGUST 16 – 22 @ 2.45, 23 – 29 @ 2.30, 30 @ 2.15, 31 @ 2.15 **ST**
 MEDI | SEPTEMBER 1 – 3 @ 2.15, 14 @ 2.30, 21 @ 1.45

KENSUKE'S KINGDOM (PG)

Neil Boyle | Kirk Hendry | UK | Luxembourg | France | 2023 | 84'

Mae Michael ifanc a'i deulu yn gadael cartref i deithio'r byd mewn cwch. Yn ystod storm, mae'n cael ei daflu i'r môr a'i olchi i'r lan ar ynys lle mae'n rhaid iddo addasu i fywyd ar ei ben ei hun. Dros amser, mae'n teimlo presenoldeb arall, ac yn dysgu bod y byd hwn yn gartref i berygl a harddwch y tu hwnt i'w ddychymyg. Addasiad animeiddiedig o nofel annwyl Michael Morpurgo y mae ei neges o gydweithio i warchod byd natur erioed wedi teimlo'n fwy amserol.

Young Michael and his family leave home to travel the world by boat. During a storm, he is thrown overboard and washed up on an island where he must adapt to life alone. Over time, he feels another presence, and learns that this world is home to both danger and beauty beyond his imagination. Animated adaptation of Michael Morpurgo's beloved novel whose message of working together to protect nature has never felt timelier.



AWST | AUGUST 16, 17 @ 1.00, 4.00, 7.00, 18 @ 1.00, 4.00, 7.00 **ST**,
 19 – 29 @ 1.00, 4.00, 7.00

ALIEN: ROMULUS (15)

Fede Alvarez | UK | USA | 2024 | 119'

Y seithfed ran yn y fasnachfrait *Alien* wedi'i gosod rhwng digwyddiadau *Alien* ac *Aliens*. Wrth chwilio cyffiniau pellaf gorsaf ofod adfeiledig, mae grŵp o wladychwyr gofod ifanc yn dod wyneb yn wyneb â'r ffurf bywyd mwyaf brawychus yn y bydysawd.

The seventh instalment in the *Alien* franchise set between the events of *Alien* and *Aliens*. While scavenging the deep ends of a derelict space station, a group of young space colonisers come face to face with the most terrifying life form in the universe.



AWST | AUGUST 23 – 26 @ 7.30, 27 @ 7.30 **ST**, 28, 29 @ 7.30

IT ENDS WITH US (12A TBC)

Justin Baldoni | USA | 2024 | tbc'

Mae Lily yn credu ei bod hi wedi dod o hyd i gariad go iawn gyda Ryle, ond pan mae digwyddiad poenus yn sbarduno trawma yn y gorffennol, rhaid iddi benderfynu a all cariad yn unig gynnal ei phriodas. Caiff pethau eu cymhlethu'n bellach pan mae ei chariad cyntaf yn dychwelyd i'w bywyd. Blake Lively sy'n chwarae rhan Lily, Justin Baldoni yw Ryle, ac mae'r ffilm yn seiliedig ar y nofel o'r un enw gan Colleen Hoover.

Lily believes she's found true love with Ryle, but when a painful incident triggers past trauma, she must decide if love alone can carry her marriage through. Things are further complicated when her first love returns to her life. Blake Lively plays Lily, Justin Baldoni is Ryle, based on the novel of the same name by Colleen Hoover.



AWST | AUGUST 30 @ 5.00, 31 @ 7.45

MEDI | SEPTEMBER 1 @ 7.45, 2, 3 @ 5.00, 4, 5 @ 7.30

HUNDREDS OF BEAVERS (12A)

Mike Cheslik | USA | 2024 | 108'

Rhaid i werthwr brandi afalau meddw weithio ei ffordd i fyny o ddim i fod yn drapiwr ffyrtau mwyaf Gogledd America fel y gall ennill llaw cariad direidus. Ond yn gyntaf, rhaid iddo drechu cannoedd o afancod. Wedi'i gosod mewn tirwedd aeafol swrrealiaidd heb ddim ond ei ddiffy synnwyr cyffredin i'w arwain, mae Jean Kayak yn brwydro yn erbyn yr elfennau a channoedd o greaduriaid herfeiddiol. Gwyliwn wrth iddo greu trapiau mwyfwy gymhleth. Comedi slapstic a ysbrydolwyd gan bobl fel Charlie Chaplin a Buster Keaton.

A drunken applejack salesman must work from nothing to become North America's greatest fur trapper so he can win the hand of a mischievous lover. But first he must defeat hundreds of beavers. Set in a surreal winter landscape with nothing but his dim wits to guide him, Jean Kayak battles against the elements and hundreds of defiant creatures. We watch as he creates increasingly complex traps. Slapstick comedy inspired by the likes of Charlie Chaplin and Buster Keaton.



AWST | AUGUST 30 @ 7.00
 MEDI | SEPTEMBER 1 @ 8.15, 2, 3 @ 7.00
BORDERLANDS (12A)
 Eli Roth | USA | 2024 | 101'

Cate Blanchett a Kevin Hart yw sêr yr antur ryngalaethol hon sy'n seiliedig ar y fasnachfaint gêm fideo hynod lwyddiannus. Mae Lilith (Blanchett) yn uno â band annisgwyl o gymeriadau rhyfedd, er mwyn amddiffyn merch sydd ar goll, sydd o bosib yn dal yr allwedd i bŵer anhygoel. Gallai tynged y bydysawd fod yn eu dwylo, ond yn hytrach maen nhw'n ymladd dros ei gilydd.

Cate Blanchett and Kevin Hart star in this intergalactic adventure based on the bestselling videogame franchise. Lilith (Blanchett) forms an alliance with an unexpected band of misfits, to protect a missing girl who may hold the key to unimaginable power. The fate of the universe could be in their hands, but they find themselves fighting for each other.



AWST | AUGUST 30 @ 7.45, 31 @ 5.00
 MEDI | SEPTMEBER 1 @ 5.00, 2 @ 7.45 **ST**, 3 @ 7.45, 5 @ 2.00
THELMA (12A)
 Josh Margolin | Switzerland | USA | 2024 | 98'

Pan mae Thelma Post, 93 oed, yn cael ei thwylo gan sgamiwr ffôn sy'n esgus mai e yw ei hŵyr, mae'n cychwyn ar daith beryglus ledled y ddinas i adennill yr hyn a gymerwyd oddi wrthi. Comedi wedi'i hysbrydoli gan brofiadau bywyd go iawn y cyfarwyddwr Josh Margolin a'i fam-gu. *Mission Impossible* i'r henoed.

When 93-year-old Thelma Post gets duped by a phone scammer pretending to be her grandson, she sets out on a treacherous quest across the city to reclaim what was taken from her. Comedy inspired by the real life experiences of director Josh Margolin and his grandmother. *Mission Impossible* for the nonagenarian.




MEDI | SEPTEMBER 6 @ 7.15, 7. 8 @ 2.15, 4.15, 7.15, 10 @ 7.15, 11 @ 7.15 **ST**,
12, 13 @ 7.15, 14, 15 @ 2.15, 5.00, 8.00, 17 – 19 @ 7.15

BEETLEJUICE BEETLEJUICE (12A TBC)

Tim Burton | USA | 2024 | tbc'

Mae tair cenhedlaeth y teulu Deetz yn dychwelyd adref i Winter River yn dilyn trasedi deuluol annisgwyl. A hithau'n dal i gael ei phoenyddio gan atgofion am Beetlejuice, cyn hir caiff bywyd Lydia ei droi wyneb i waered pan mae ei merch wrthryfelgar yn ei harddegau yn darganfod porth dirgel i fywyd ar ôl marwolaeth. Anhrefn Beetlejuice sy'n dilyn. Mewn cast llawn sêr mae Winona Ryder yn dychwelyd fel Lydia a Michael Keaton yn y brif ran.

Three generations of the Deetz family return home to Winter River after an unexpected family tragedy. Still haunted by Beetlejuice, Lydia's life soon gets turned upside down when her rebellious teenage daughter discovers a mysterious portal to the afterlife. Beetlejuice mayhem ensues. A stellar cast sees Winona Ryder return as Lydia and Michael Keaton in the title role.



MEDI | SEPTEMBER 6 @ 7.30, 7. 8 @ 7.45, 10 @ 7.30 **ST**, 11, 12 @ 7.30

THE CROW (15 TBC)

Rupert Sanders | UK | France | USA | 2024 | tbc'

Ailwampiad ar glasur cwlt y 90au. Mae'r cariadon Eric Draven a Shelly Webster yn cael eu llofruddio'n greulon pan mae cythreuliaid ei gorffennol tywyll hi yn dal i fyny gyda nhw. Ac yntau'n cael y cyfle i achub ei wir gariad trwy aberthu ei hun, mae Draven yn dychwelyd i chwilio am ddialedd gwaedlyd yn erbyn y lladdwyr, gan groesi bydoedd y byw a'r meirw er mwyn unioni'r cam.

Remake of the 90s cult classic. Soulmates Eric Draven and Shelly Webster are brutally murdered when the demons of her dark past catch-up with them. Given the chance to save his true love by sacrificing himself, Draven returns to seek bloody revenge against the killers, traversing the worlds of the living and the dead in order to right the wrongs.



MEDI | SEPTEMBER 8 @ 6.15

PERFECT DAYS (PG)

Wim Wenders | Japan | Germany | 2023 | 125'



Mae Hirayama yn teimlo'n fodlon â'i fywyd fel glanhawr toiledau cyhoeddus yn Tokyo. Y tu allan i'w drefn strwythuredig, mae'n hoffi cerddoriaeth ar dapiau casét, mae'n darllen llyfrau ac yn tynnu lluniau. Trwy gyfarfyddiadau annisgwyl, mae'n myfyrio ar ddo o hyd i harddwch a llawenydd tawel yn y byd. Achos cryf dros fyw'n syml yn yr hyn sy'n cael ei ystyried fel ffilm nodwedd orau Wim Wender ers blynyddoedd.

Hirayama feels content with his life as a public toilet cleaner in Tokyo. Outside of his structured routine, he cherishes music on cassette tapes, reads books and takes photos. Through unexpected encounters, he reflects on finding beauty and quiet joy in the world. A strong case for simple living in what's touted as being Wim Wender's best feature film in years.



MEDI | SEPTEMBER 13 @ 7.00, 14 @ 8.15, 15 @ 7.00, 19 @ 2.00

CARVING THE DIVINE (TBC)

Yujiro Seki | Japan | USA | 2019 | 98'

Ffilm ddogfen yw *Carving the Divine* sy'n cynnig cipolwg prin ar draddodiad cerfio pren Bwdhaidd hynafol y Bushi. Rydyn ni'n gweld sut mae'r ymarferwyr modern yn brwydro i ddiogelu'r etifeddiaeth yn Japan sy'n newid yn gyflym. Mae'r ffilm yn datgelu byd cyfrinachol y berthynas meistr-prentis rhwng y cerflunwyr hyn, ac yn y pen draw y llwybr i ddo yn artist go iawn, o ran sgiliau ac ysbryd hefyd.

***Carving the Divine* is a documentary film that offers a rare look into the ancient Buddhist woodcarving tradition of the Busshi. We see how the modern day practitioners are struggling to preserve its legacy in a rapidly changing Japan. The film unveils the secret world of the master-apprentice relationship between these sculptors, and ultimately the path to becoming a true artist, in both skill and spirit.**



MEDI | SEPTEMBER 13 @ 7.30, 14 @ 7.45, 15 @ 7.45 **ST**, 17 – 19 @ 7.45

BLINK TWICE (15 TBC)

Zoë Kravitz | USA | 2024 | tbc'

Pan mae'r biliwnydd technoleg Slater King yn cwrdd â'r gweinydd coctels Frida yn ei gala codi arian, mae'n ei gwahodd hi i ymuno ag ef a'i deulu o ffrindiau am wyliau delfrydol ar ei ynys breifat. Wrth i bethau rhyfedd ddechrau digwydd, mae Frida yn dechrau cwestiynu ei gafael ei hun ar realiti. Gyda Channing Tatum a Christian Slater yn serennu, dyma début Zoë Kravitz fel cyfarwyddwr.

When tech billionaire Slater King meets cocktail waitress Frida at his fundraising gala, he invites her to join him and his entourage of friends for a dream vacation on his private island. As strange things start to happen, Frida begins questioning her own grasp on reality. Starring Channing Tatum and Christian Slater, this is the directorial debut from Zoë Kravitz.



MEDI | SEPTEMBER 20, 21 @ 7.00, 22 @ 7.30

THE TRUST FALL: JULIAN ASSANGE (15)

Kym Staton | Australia | 2023 | 129'

Ffilm sy'n mynd ati i archwilio ystyr ac arwyddocâd y mewnwelediadau a rannodd WikiLeaks â'r byd, ymddygiad y llywodraethau dan sylw o ganlyniad, y risg bersonol a gymerwyd gan Assange, a'r materion sylfaenol ehangach ynghylch rhyddid y wasg sy'n effeithio ar bob un ohonom. Wedi'i ffilmio dros ddwy flynedd, mae'r ffilm yn cynnwys amrywiaeth o enwogion yn ogystal â myfyrdodau gan deulu Assange. Portread manwl gan yr amddiffyniad.

Examining the meaning and significance of the insights that WikiLeaks shared with the world, the resulting behaviour of the governments involved, the personal risk taken by Assange, and the wider fundamental issues around press freedom that affect all of us. Filmed over two years, the film features an array of luminaries as well as reflections from Assange's family. A detailed portrayal from the defence.



MEDI | SEPTEMBER 20 @ 7.15*, 21 @ 8.30, 22 @ 4.00, 26 @ 2.00

GAZA: A STORY OF LOVE AND WAR (12A)

Mike Joseph | 2024 | 84'

Mae dau newyddiadurwr yn cwrdd i rannu staeon dros ddolen Zoom. Cymro yw un sy'n methu mynd i mewn i Gaza. Palestiniad yw'r llall sy'n methu dod allan. Wrth iddynt siarad, caiff hanes personol iawn Nakba Palesteina ei adrodd, o ddiarddeliadau 1948 i'r strydoedd lladd a dinasoedd pebyll yn 2024. Clywn gysylltiadau rhyfeddol yn y staeon. Yn mae eu sgwrs yn cyrraedd cwestiwn annisgwyl iawn: A yw cydfodolaeth yn bosibl?

Two journalists meet to share stories over a Zoom link. One is Welsh and unable to get into Gaza. The other is Palestinian and unable to get out. As they talk, a very personal history of the Palestinian Nakba is narrated, from the expulsions of 1948 to the killing streets and tent cities of 2024. We hear remarkable connections in the stories. Then their talk reaches a most unexpected question: Is coexistence possible?

* Yn dilyn y dangosiad ar ddydd Gwener 20 Medi cynhelir sesiwn holi ac ateb gyda chyfarwyddwr y ffilm, Mike Joseph.

*The screening on Friday 20 September will be followed by a Q&A session with the film's director Mike Joseph.



MEDI | SEPTEMBER 20 @ 7.30, 21 @ 1.15, 4.15, 7.30, 22 @ 1.15, 4.30, 7.45, 24 @ 7.30, 25 @ 7.30 **ST**, 26, 27 @ 7.30, 28, 29 @ 1.00, 4.15, 7.30

HYDREF | OCTOBER 1 @ 7.30, 2, 3 @ 7.00

WOLFS (15 TBC)

Jon Watts | UK | USA | 2024 | tbc'

Mae dau weithredwr annibynnol yn cael eu gorfodi i weithio gyda'i gilydd pan gânt eu cyflogi i guddio trosedd proffil uchel. Ill dau yn bwrw 'mlaen mewn oedran, mae George Clooney a Brad Pitt yn ddynion sy'n datrys problemau anodd ac sy'n mynnu gweithio ar eu pennau eu hunain. Hyd yn hyn. Yn gyflym mae'r sefyllfa'n mynd y tu hwnt i bob rheolaeth. Comedi llawn cyffro gydag Amy Ryan, Austin Abrams a Poorna Jagannathan hefyd.

Two lone wolves are forced to work together when they are hired to cover up a high-profile crime. George Clooney and Brad Pitt are both ageing fixers who very much work alone. Until now. Things quickly spiral out of control. Comedy action also starring Amy Ryan, Austin Abrams and Poorna Jagannathan.



MEDI | SEPTEMBER 22 @ 6.45

BLACKBIRD BLACKBIRD BLACKBERRY (15)

Elene Naveriani | Switzerland | Georgia | 2023 | 107'



A hithau'n byw mewn pentref bach yn Georgia, mae Etero, 48 oed, yn gwerthfawrogi ei rhyddid cymaint â i chacennau, ac nid yw hi byth eisiau priodi. Mae ei dewis i fyw ar ei phen ei hun yn destun llawer o glonc ymhlith ei chyd-bentrefwyr sy'n ei chael hi'n anodd credu ei bod hi'n sengl o ddewis. Pan mae'n syrthio mewn cariad â dyn, rhaid iddi bwysu a mesur ei dyhead newydd am gysylltiad emosïynol yn erbyn ei rhyddid gwerthfawr.

Living in a small Georgian village, 48-year-old Etero cherishes her freedom as much as her cakes, and never wants to marry. Her choice to live alone is the cause of much gossip among her fellow villagers who find it hard to believe that she's single by choice. When she finds herself falling for a man, she must weigh up her newfound yearning for emotional connection against her hard-won freedom.

MEDI | SEPTEMBER 24 – 26 @ 7.45

THE COMMANDANTS SHADOW (12A)

Daniela Volker | USA | Israel | Poland | UK | Germany | 2024 | 103'

Tra bod Hans Jurgen Höss yn mwynhau plentyndod hapus yn fila'r teulu yn Auschwitz, roedd y carcharor Iddewig Anita Lasker-Wallfisch yn ceisio goroesi'r gwersyll crynhoi drwg-enwog. Mae'r rhaglen ddogfen hon yn troi o gwmpas y foment hanesyddol, wyth degawd yn ddiweddarach, pan mae'r ddau'n cwrdd wyneb yn wyneb. Dyma'r tro cyntaf i ddisgynnydd un o droseddwy'r pennaf y rhyfel gwrrd â goroeswr mewn lleoliad mor breifat ac agos atoch, sef ystafell fyw Anita yn Llundain. Ynghyd â'u plant, Kai Höss a Maya Lasker-Wallfisch, mae'r pedwar prif gymeriad yn archwilio eu beichiau etifeddol gwahanol iawn.

While Hans Jurgen Höss enjoyed a happy childhood in the family villa at Auschwitz, Jewish prisoner Anita Lasker-Wallfisch was trying to survive the notorious concentration camp. At the heart of this documentary is the historic moment, eight decades later, when the two come face-to-face. This is the first time the descendant of a major war criminal meets a survivor in such a private and intimate setting, Anita's London living room. Together with their children, Kai Höss and Maya Lasker-Wallfisch, the four protagonists explore their very different hereditary burdens.



MEDI | SEPTEMBER 27, 28 @ 7.00, 29 @ 7.15
HYDREF | OCTOBER 1 @ 7.00 **ST**, 3 @ 2.00, 5, 6 @ 4.45

LEE (15)

Ellen Kuras | UK | USA | 2023 | 117'

Hanes y ffotograffydd Elizabeth Lee' Miller (Kate Winslet), model a ddaeth yn ohebydd rhyfel clodwiw i gylchgrawn Vogue yn ystod yr Ail Ryfel Byd. A hithau'n fenyw a wrthododd gael ei chofio fel model yn unig, yn groes i normau rhywedd y cyfnod, fe deithiodd Lee i'r rheng flaen ac i wersyll crynhoi Dachau er mwyn dogfennu'n ddiysgog yr erchyllterau a welodd.

Kate Winslet stars in the story of photographer Elizabeth Lee' Miller, a vogue model who became an acclaimed war correspondent for Vogue magazine during World War II. A woman who refused to be remembered only as a model, Lee travelled to the frontline and the Dachau concentration camp in defiance of the gender norms of the time to unflinchingly document the horrors that she saw.



MEDI | SEPTEMBER 27 @ 7.15, 28, 29 @ 1.15, 4.45, 7.45
HYDREF | OCTOBER 1 @ 7.15, 2 - 4 @ 6.45, 5 @ 2.00, 5.00, 8.00,
6 @ 2.00, 5.00, 8.00 **ST**, 8, 9 @ 6.45, 10 @ 2.00, 6.45

THE OUTRUN (15)

Nora Fingscheidt | UK | Germany | 2024 | 117'

Yn syth ar ôl cyfnod adsefydlu, mae Rona yn dychwelyd i Ynysoedd gwylt Orkney ar ôl mwy na degawd i ffwrdd. Mae'n datblygu cysylltiad dwfn â thirwedd ddramatig cartref ei phlentynodod wrth iddi lywio eithafion ei bywyd hyd yma - gan symud o'r lle mwyaf anghysbell i'r mwyaf trefol yn y DU ac yn ôl eto, a symud o fod yn feddwi i fod yn sobr. Yn seiliedig ar y cofiant llwyddiannus gan Amy Liptrot, mae Saoirse Ronan ar ei gorau yn rôl y brif actores.

Fresh out of rehab, Rona returns to the wild Orkney Islands after more than a decade away. She develops a deep connection with the dramatic landscape of her childhood home as she navigates the extremes of her life to date – moving from the most remote to the most urban place in the UK and back again, moving from drunk to sober. Based on the bestselling memoir by Amy Liptrot, Saoirse Ronan is “never-better” as the lead.

HYDREF | OCTOBER 4 @ 7.30, 5, 6 @ 1.15, 4.00, 7.30,
8, 9 @ 7.30, 10, 11 @ 7.45, 12 @ 1.30, 4.45, 8.15,
11 @ 2.30, 8.15, 15 @ 7.30, 16 @ 7.00,
17 @ 7.30, 25 @ 7.15 **ST**, 26 @ 7.15
TACHWEDD | NOVEMBER 5, 7 @ 7.15

JOKER: FOLIE A DEUX (15 TBC)

Todd Phillips | USA | 2024 | tbc'



Dilyniant i lwyddiant ysgubol 2019 gyda Joaquin Phoenix fel The Joker a Lady Gaga fel ei bartner, Harley Quinn. Ffilm gerddorol ond gyda'r un realaeth â'r ffilm gyntaf, wedi'i seilio'n fras ar y cymeriadau DC o'r un enw, ond wedi'i gosod mewn bydysawd gwahanol IAWN. Golwg ddiddorol ac annifyr ar gymeriadau eiconig y llyfrau comig hyn.

Sequel to the 2019 smash hit starring Joaquin Phoenix as The Joker and Lady Gaga as his Harley Quinn shaped partner in crime and muse. A musical but with the same gritty realism of the first film, loosely based on the DC characters of the same name, but placed in a VERY different universe. An intriguing and disturbing take on these iconic comic book characters.



HYDREF | OCTOBER 4 @ 7.00, 5, 6 @ 7.45, 8 @ 7.00 **ST**, 9 @ 7.00

SPEAK NO EVIL (15)

James Walkins | USA | 2024 | 110'

Mae chwarae'n troi'n chwerw pan mae teulu o America yn derbyn gwahoddiad gan deulu hyfryd o Brydain y gwnaethant gwrrd â nhw ar wyliau i ddod i ymweld â nhw am benwythnos ar eu stad wledig ddelfrydol. Mae James McAvoy yn disgleirio fel y perchennog carismatig, macho y stad a ganddo ochr dywyll. Ailwampiad ar y ffilm arswyd seicolegol o'r un enw o Ddenmarc.

Things take an ugly turn when an American family accept an invitation from a charming British family they met on holiday to come and visit them for a weekend at their idyllic country estate. James McAvoy is riveting as the charismatic, alpha-male estate owner with a dark side. A reimagining of the Danish psychological horror of the same name.



HYDREF | OCTOBER 11 @ 7.00

TWIN TOWN (18)

TAITH PEN-BLWYDD YN 25 OED | 25TH ANNIVERSARY TOUR

Yn ôl ym mis Mawrth roeddem wrth ein bodd i werthu pob tocyn ar gyfer ein dangosiad arbennig i ddatlu 25 mlynedd, a nawr mae gennym gyfle i wneud y cyfan eto, yn ogystal â sesiwn holi ac ateb gwych arall gan y cyfarwyddwr Kevin Allen.

Mae *Twin Town* yn glasuwr cwlt, a hyrddiodd sinema Gymreig i'r brif ffrwd nôl ar ddiwedd y 90au. Dyma'r ffilm a roddodd y sbotolau ar Rhys Ifans fel dawn unigryw a dangosodd ochr o ddiwylliant Cymreig nad oedd yn cael ei phortreadu'n aml ar sgriniau mawr neu fach.

We were thrilled to sell out our special 25th Anniversary screening back in March, and now we have the chance to do it all over again, as well as another fantastic Q&A from director Kevin Allen.

Twin Town is a cult classic, catapulting Welsh cinema into the mainstream back in the late 90s. It was the film that spot lit Rhys Ifans as a unique talent and it showed a side of Welsh culture rarely portrayed on screens big or small.




HYDREF | OCTOBER 11 @ 7.30, 12 @ 2.00, 5.00, 7.45, 13 @ 2.15, 5.00, 7.45,
15 – 18 @ 6.45, 19 @ 1.15 **R**, 4.00, 6.45, 20 @ 1.15, 4.00, 6.45 **ST**,
22 – 24 @ 6.45, 26, 27 @ 4.45, 28 – 31 @ 4.30
TACHWEDD | NOVEMBER 9 @ 4.15

TRANSFORMERS ONE (PG TBC)

Josh Cooley | USA | 2024 | tbc

Mae *Transformers One* yn ein tywys yn ôl i amser pan oedd Optimus Prime a Megatron yn ffrindiau, wedi'u huno â'i gilydd fel brodyr. Dyma stori wreiddiol y gelynnion mawr hyn, a newidiodd dynged Cybertron, planed gartref y Transformers, am byth. Yr wythfed ran ym masnachfrain y Transformers, a'r ffilm nodwedd animeiddiedig gyntaf yn y gyfres ers 1986! Gyda lleisiau Chris Hemsworth, Scarlett Johansson, Keegan-Michael Key, Jon Hamm a Steve Buscemi.

